Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU
Ebost Email helo@s4c.co.uk / Gwefan Website s4c.co.uk
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 / Ffacs Fax +44(0)29 2075 4444

Tendr ar gyfer Darparu Gwasanaethau Archwilio Mewnol a Thendr ar gyfer Darparu Gwasanaethau Archwilio Allanol

10/10/2011

Mae S4C yn tendro ar gyfer darparu Gwasanaethau Archwilio Mewnol ac ar gyfer darparu Gwasanaethau Archwilio Allanol. Hysbysebwyd y tendrau ar sell2wales ac mae rhagor o wybodaeth am y tendrau i'w gweld ar y safle:

Allanol – https://www.sell2wales.co.uk/notices/display.html?NoticeId=27616

a Mewnol - https://www.sell2wales.co.uk/notices/display.html?NoticeId=27433

Y dyddiad cau i geisiadau ar gyfer y ddau dendr yw 4 Tachwedd, 2011.

Dylai pob cais am wybodaeth bellach am y broses dendro yn unig gael eu cyfeirio at: tendrarchwilio@s4c.co.uk

Sylwch na ddylid cyfeirio unrhyw ymholiad neu gais am wybodaeth sy'n ymwneud â'r broses dendro at unrhyw swyddog unigol, cyflogai neu gynrychiolydd o S4C.

Holi ac Ateb

Cwestiwn 1:
A fedrwch ddarparu copi o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2010?

Ateb 1:
Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2010, ynghyd â'r rhai o flynyddoedd blaenorol, ar gael ar wefan S4C a gellir ei weld drwy ddilyn y ddolen hon:
http://www.s4c.co.uk/abouts4c/annualreport/acrobats/s4c-annual-report-2010.pdf

Cwestiwn 2:
A fedrwch ddarparu copi o'r Gofrestr Risg diweddaraf?

Ateb 2:
Mae S4C yn defnyddio system rheoli risg electronig. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddiweddaru'r gofrestr o ganlyniad i newidiadau i staff S4C. Caiff yr Asesiad Risg newydd ei rannu â'r cwmni llwyddiannus, ond ni fyddai'n briodol i rannu'r gofrestr yn ei ffurf bresennol â phob ymgeisydd.

Cwestiwn 3:
A fedrwch ddarparu eich Cynlluniau Archwilio Mewnol ar gyfer 2009/2010/2011?

Ateb 3:

Trafodwyd y meysydd Archwilio canlynol yn ystod y 3 blynedd diwethaf:

	2009	2010	2011
Cynllunio ariannol a rheolaeth gyllidebol	√	√	√
Llywodraethu corfforaethol	√	√	√
Rheoli risg	√	√	√
Systemau ariannol craidd	√	√	√
Y Newid i Ddigidol	√	√	
Tendro a chaffael	√	√	√
Rheoli'r gadwyn gyflenwi	√		
Cynllunio adfer ar ôl trychineb	√		
TG a systemau'r rhwydwaith		√	
Adnoddau dynol		√	
Cydymffurfiaeth rheoleiddio		√	√
Archwiliad o'r "Adolygiad o Gyllideb"		√	√
Rheoli prosiectau			√
Darlledu a chomisiynu			√
Gwaith dilynol ar yr adolygiadau	√	√	√

Roedd pob cynllun hefyd yn cynnwys dyraniad ar gyfer Cynllunio a gweinyddu ac amser wrth gefn.

Cwestiwn 4:
A fedrwch ddarparu rhestr o'r meysydd a gwmpasir gan yr archwiliad mewnol?

Ateb 4:
Gweler cwestiwn 3.

Cwestiwn 5:
A fedrwch nodi nifer y dyddiau archwilio pob blwyddyn?

Ateb 5:
Yn hytrach na glynu at y gorffennol, y bwriad yw y bydd cwmnïau yn gwneud asesiad ac yn awgrymu nifer y dyddiau sydd angen.

Cwestiwn 6:
A fedrwch ddarparu'r Adroddiad Archwilio Mewnol ar gyfer 2010?

Ateb 6:
Mae'r adroddiad archwilio mewnol blynyddol yn ddogfen gyfrinachol nad ydym mewn sefyllfa i rannu ar hyn o bryd yn y broses. Yn naturiol, bydd ar gael i'r cwmni llwyddiannus fel rhan o drosglwyddo cyfrifoldeb.

Cwestiwn 7:
A ddiwygiwyd eich Cynllun Corfforaethol ym mis Mehefin 2011, fel y nodir ar eich gwefan? Os felly, a fedrwch ddarparu copi ohono?

Ateb 7:
Cyflwynwyd y cynllun diwygiedig i'r Awdurdod yr wythnos diwethaf. Erys rhai materion cyn ei gyhoeddi, ond mae'r ddogfen ar gael isod mewn ffurf drafft.

S4/C

Cynllun Corfforaethol 2011

Copi Adolygu – drafft 27.09.2011
Cyhoeddwyd ar XX.XX.2011

Amcanion Corfforaethol 2011

Ein hamcan craidd yw darparu gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr, ac o safon uchel sy'n adlewyrchu a chyfoethogi bywyd Cymru.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn rhannu'r gweithgareddau sy'n cynnal yr amcan craidd i ddau is-amcan:

1. Cyflawni anghenion y Strategaeth Cynnwys.

2. Gweithredu o fewn fframwaith statudol a chyhoeddus S4C.

Amcan 1

Cyflawni'r Strategaeth Cynnwys

Targed
Amcan 1 (1) (i) Cynyddu cyrhaeddiad wythnosol ar gyfer y gwasanaethau Cymraeg o gymharu â lefel o 467,000 yng Nghymru yn 2010. (ii) Cyflawni cyrhaeddiad o dros 100,000 o wylwyr ar gyfer 70 rhaglen unigol yn ystod y flwyddyn. (iii) Cynyddu ein cyrhaeddiad flwyddyn ar flwyddyn drwy ddarparu cynnwys ar lwyfannau priodol, gan ddefnyddio mesuriadau ymchwil diwydiant cydnabyddedig. (iv) Sicrhau bod trefniadau gwaith ymchwil er mwyn asesu, monitro a mesur gwerthfawrogiad ac ymrwymo i wasanaethau a gweithgareddau S4C. (v) Ailasesu targedau perfformiad, gan awgrymu rhai newydd sy'n ymgorffori amcanion "Gweledigaeth 2012 a thu hwnt" ac yn ailedrych ar sail y mesuriadau yn S4C. Bydd y targedau newydd yn ymgorffori'r elfennau canlynol: • Cyrhaeddiad. • Ansawdd a Gwerthfawrogiad. • Effaith gan gynnwys mesuriadau o ymrwymiad, effeithiau ieithyddol, diwylliannol ac economaidd. • Gwerth am arian.

Amcan 1 (2)

(i) Cyhoeddi Datganiad Polisi Rhaglenni S4C erbyn 31 Ionawr 2011.

(ii) Cyhoeddi Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2010 cyn 31 Mawrth 2011.

(iii) Parhau i weithredu Strategaeth Cynnwys S4C.

(iv) Paratoi er mwyn gweithredu strategaeth "Gweledigaeth 2012 a thu hwnt", a gyhoeddwyd ar y 1 Gorffennaf 2011.

Amcan 1 (3)

Gweithredu yn unol â Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2011 a neilltuo o leiaf £75 miliwn i gyllideb cynnwys. Cydymffurfio gyda thargedau Ofcom, targedau Awdurdod S4C a'r rhai a nodir yn y Ddeddf Gyfathrebiadau:

(i) O leiaf 25% o amser darlledu i'w roi i gynyrchiadau o'r sector annibynnol.

(ii) 90% o Raglenni gwreiddiol[1] (oriau brig[2]).

(iii) 80% o Raglenni gwreiddiol (holl oriau).

(iv) 60 awr y flwyddyn o Raglenni Materion Cyfoes (holl oriau).

(v) 30 awr y flwyddyn o Raglenni Materion Cyfoes (oriau brig).

(vi) 200 awr y flwyddyn o Raglenni Newyddion (holl oriau).

(vii) 150 awr y flwyddyn o Raglenni Newyddion (oriau brig).

(viii) Un Rhaglen Newyddion ddyddiol yn ystod yr oriau brig.

(ix) 140 awr y flwyddyn o Raglenni plant gwreiddiol (targed Awdurdod S4C).

Amcan 1 (4)

Gweithredu o fewn y Cod Ymarfer a'r Telerau Masnach a chydymffurfio gyda'r targedau ar gyfer comisiynu cynnwys, sydd wedi eu cymeradwyo gan Ofcom.

Amcan 1 (5)

Gweithredu o fewn fframwaith y Bartneriaeth Strategol rhwng y BBC ac S4C i sicrhau bod cyfraniad statudol y BBC yn gyson â Strategaeth Cynnwys S4C.

Amcan 1 (6)

Cwrdd â thargedau Ofcom ar isdeitlau, sain ddisgrifio ac arwyddo yn ystod holl oriau S4C.

	2011
Isdeitlo (Saesneg):	80%
Arwyddo:	5%
Sain ddisgrifio:	10%

[1] Gwreiddiol = Rhaglenni a gomisiynir gan neu a gynhyrchir ar gyfer S4C ag yn waith Ewropeaidd (directive AVMS), boed yn ddarllediadau gwreiddiol neu yn ail ddangosiadau. Mae'r cyfanswm yn cynnwys yr oriau a gynhyrchir gan y BBC.

[2] (Oriau Brig fel y diffinnir gan Ofcom= 18:00 – 22:30)

Amcan 1 (7) Cynnig 10 awr yr wythnos o oriau gwreiddiol gydag isdeitlau Cymraeg 889.
Amcan 1 (8) Cynnal trefniadau dosbarthu priodol ar gyfer gwasanaethau S4C. Adolygu yn gyson ac adnabod cyfleoedd er mwyn cynnig ein gwasanaethau ar lwyfannau eraill a newydd yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.
Amcan 1 (9) Sicrhau bod Gwifren Gwylwyr S4C ar gael trwy gydol y flwyddyn o leiaf o 09:00 tan 22:00 i dderbyn sylwadau, cwynion a cheisiadau am wybodaeth gan ein gwylwyr ar 0870 6004141 neu gwifren@s4c.co.uk a hyrwyddo'r gwasanaeth.
Amcan 1 (10) Gweithredu ac adolygu Cynllun Cyfathrebu, ymestyn ymrwymiad â chymunedau ledled Cymru. Sicrhau effaith rheolaidd a monitro perfformiad.
Amcan 1 (11) Sicrhau bod fframwaith hawliau priodol yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer comisiynu cynnwys.
Amcan 1 (12) Sicrhau bod systemau mewn lle i sicrhau bod y gwasanaethau yn cydymffurfio gyda'r gyfraith a chodau perthnasol.
Amcan 1 (13) Sicrhau trefniadau addas i godi lefel sgiliau staff S4C ac yn y diwydiant. Sicrhau adnoddau digonol er mwyn ymateb i ofynion sgiliau'r strwythur newydd yn S4C. Cyflawni rhagoriaeth drwy gyfrannu at adnabod blaenoriaethau hyfforddi a buddsoddi mewn darpariaeth hyfforddiant, gan gynnwys ysgoloriaethau.
Amcan 1 (14) Sicrhau bod S4C yn cyflawni ei Ymrwymiad i Amrywiaeth, gan adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn a gweithredu'r camau a'r addewidion sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad, a hyrwyddo pellach ac integreiddio amrywiaeth yn ei holl weithgareddau.
Amcan 1 (15) Cynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau gweithredol ar draws holl weithgareddau S4C, gan sicrhau ymgynghori annibynnol a safbwyntiau lle mae'n bosibl. Mae'r adolygiad i'w gwblhau erbyn mis Mehefin 2011. Bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei ddefnyddio i lywio strwythurau'r sefydliad, amcanion a thargedau, ac arwain ar adolygiad o ganllawiau perthnasol a Chodau.

Amcan 2

Yr Awdurdod a'r Swyddogion i weithredu o fewn fframwaith statudol a chyhoeddus S4C.

Targed
Amcan 2 (1) Gweithredu yn unol â gofynion statudol, sy'n cael eu canfod: - cyflwr y farn gyhoeddus am raglenni S4C; - unrhyw effeithiau rhaglenni o'r fath ar agweddau neu ymddygiad y bobl sy'n gwylio nhw; a - y mathau o raglen y byddai'r cyhoedd yn hoffi i ddarlledu ar S4C ac i anelu i ymgymryd ag ymchwil o'r fath yn annibynnol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried canlyniadau ymchwil o'r fath.
Amcan 2 (2) Rhoi ar waith, a gweithredu yn unol strwythur Llywodraethiant Corfforaethol diwygiedig, yn seiliedig ar argymhellion Syr Jon Shortridge yn ei adolygiad o drefniadau Lywodraethiant Corfforaethol S4C.
Amcan 2 (3) Gweithredu cynlluniau blynyddol yr Awdurdod, Pwyllgorau'r Awdurdod a Thîm Rheoli S4C, ac adolygu'r Cynllun Corfforaethol 2011 yn chwarterol.
Amcan 2 (4) Cynnal trafodaeth gyda'r ADdCCh a'r BBC ar strwythurau ariannol a llywodraethu ar gyfer S4C ar ôl 2013, gan anelu i gyrraedd cytundeb mewn egwyddor erbyn haf 2011. Yn dilyn cyrraedd cytundeb mewn egwyddor gyda'r ADdCCh a'r BBC ar strwythurau ariannol a llywodraethu, gweithio ar fanylion y Cytundeb Gweithredol gyda'r BBC er mwyn cyrraedd cytundeb erbyn 31 Gorffennaf 2012 fan bellaf.
Amcan 2 (5) Sicrhau bod archwiliadau mewnol ac allanol yn cael eu cynnal yn unol â chynllun archwilio.
Amcan 2 (6) Gosod o flaen y Senedd a chyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol.
Amcan 2 (7) Sicrhau bod S4C yn parhau i gydymffurfio â Pholisi Masnachu Teg Awdurdod S4C ac yn gweithio o fewn polisïau S4C. Adolygu a diwygio polisïau yn ôl y gofyn.
Amcan 2 (8) Lle'n briodol, ymateb i Adolygiadau gan y Llywodraeth, y Cynulliad, Ofcom, y Comisiwn Ewropeaidd ac eraill.
Amcan 2 (9) Sicrhau goruchwyliaeth briodol o weithgareddau masnachol gan gwmnïau grŵp S4C Masnachol. Derbyn difidend oddi wrth S4C Masnachol. Gweithredu argymhellion Adroddiad Shortridge i gael dau aelod o'r Awdurdod yn gyfarwyddwyr (gan gynnwys Cadeirydd) yr is-gwmnïau masnachol ac adrodd yn rheolaidd i'r Awdurdod ar eu trafodion.
Amcan 2 (10) Adolygu fframwaith Cod Cwynion S4C erbyn Mehefin 2011 gan gymryd i ystyriaeth yr argymhellion a nodwyd gan Syr Jon Shortridge yn ei adolygiad o drefniadau Llywodraethant Corfforaethol S4C

Targed
Amcan 2 (11) Sicrhau bod S4C yn cynnig gwerth gorau ar draws yr holl weithgareddau. Cymeradwyo cyllideb ddiwygiedig bedair blynedd, ar gyfer y cyfnod 2011-2014, a fydd yn ymgorffori'r argymhellion cymeradwywyd o'r adolygiad yr amlinellwyd yn Amcan 1 (15).
Amcan 2 (12) Llai na [ ] o holl wariant i'w wario ar [orbenion].
Amcan 2 (13) Cynnal Cofrestr Risg yn unol â'r Polisi Risg.

S4/C

ATODIAD YN AMLINELLU'R NEWIDIADAU YM MIS MEDI 2011

Targed
Amcan 1 (1) (vi) Ailasesu targedau perfformiad, gan awgrymu rhai newydd sy'n ymgorffori amcanion "Gweledigaeth 2012 a thu hwnt" ac yn ailedrych ar sail y mesuriadau yn S4C. Bydd y targedau newydd yn ymgorffori'r elfennau canlynol: • Cyrhaeddiad. • Ansawdd a Gwerthfawrogiad. • Effaith gan gynnwys mesuriadau o ymrwymiad, effeithiau ieithyddol, diwylliannol ac economaidd. • Gwerth am arian.
Amcan 1 (2) (v) Paratoi er mwyn gweithredu strategaeth Gweledigaeth 2012 a Thu Hwnt, a gyhoeddwyd ar y 1 Gorffennaf 2011.
Amcan 1 (13) Sicrhau adnoddau digonol er mwyn ymateb i ofynion sgiliau'r strwythur newydd yn S4C.
Amcan 2 (4) Yn dilyn cyrraedd cytundeb mewn egwyddor gyda'r ADdCCh a'r BBC ar strwythurau ariannol a llywodraethu, gweithio ar fanylion y Cytundeb Gweithredol gyda'r BBC er mwyn cyrraedd cytundeb erbyn 31 Gorffennaf 2012 fan bellaf.
Amcan 2 (9) Gweithredu argymhellion Adroddiad Shortridge i gael dau aelod o'r Awdurdod yn gyfarwyddwyr (gan gynnwys Cadeirydd) yr is-gwmnïau masnachol ac adrodd yn rheolaidd i'r Awdurdod ar eu trafodion.